***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 1149 (Cy. 198) (C. 76)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Hydref 2023* |
| *Yn dod i ryme - -* | *30 Hydref 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 22(2) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023(**1**).

Yn unol ag adran 21(3) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1) 2023 a daw i rym ar 30 Hydref 2023.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 30 Hydref 2023

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 i rym ar 30 Hydref 2023—

(a) adran 1 (cysyniadau allweddol: "cynnyrch plastig", "untro" a "plastig");

(b) adran 2 (cynhyrchion plastig untro gwaharddedig);

(c) adran 5 (y drosedd o gyflenwi cynhyrchion plastig untro gwaharddedig);

(d) adran 6 (trosedd: dull treial a chosb);

(e) adran 7 (camau gorfodi gan awdurdod lleol);

(f) adran 8 (pŵer i wneud pryniannau prawf);

(g) adran 9 (pŵer mynediad);

(h) adran 10 (pŵer mynediad: mangreoedd preswyl);

(i) adran 11 (pŵer mynediad: amgylchiadau eraill pan fo gwarant yn angenrheidiol);

(j) adran 12 (pwerau mynediad: atodol);

(k) adran 13 (pŵer arolygu);

(**1**) 2023 dsc 2.

(l) adran 14 (y drosedd o rwystro etc. swyddogion);

(m) adran 15 (eiddo a gedwir: apelau);

(n) adran 16 (eiddo a gyfeddir: digolledu);

(o) adran 18 (troseddau a gyflawnir gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig eraill);

(p) adran 19 (atebolrwydd troseddol uwch-swyddogion etc.);

(q) adran 20 (dehongli);

(r) paragraff 1 o'r Atodlen (cynhyrchion plastig untro gwaharddedig), ac eithrio'r cofnodion yng ngholofn 1 a cholofn 2 o'r Tabl ar gyfer "caeadau ar gyfer cwpanau neu gynhwysyddion cludfwyd", "bagiau siopa" ac "unrhyw gynnyrch a wnaed o gynnyrch plastig ocso-ddiraddiadwy— (a) pa un a yw'r cynnyrch hwnnw yn ymddangos yn rhywle arall yn y tabl hwn ai peidio, a (b) pa un a fyddai'r math penodol o gynnyrch, neu'r diben y cyflenwir y cynnyrch hwnnw (neu fath penodol o gynnyrch) ar ei gyfer, fel arall wedi ei esemptio oherwydd cofnod yng ngholofn 2 ai peidio.";

(s) paragraff 2 o'r Atodlen.

*Julie James*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

26 Hydref 2023

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Cafodd Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (dsc 2) ("y Ddeddf") y Cydsyniad Brenhinol ar 6 Mehefin 2023.

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru ac mae'n dwyn y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 30 Hydref 2023—

(a) adran 1 (cysyniadau allweddol: "cynnyrch plastig", "untro" a "plastig");

(b) adran 2 (cynhyrchion plastig untro gwaharddedig);

(c) adran 5 (y drosedd o gyflenwi cynhyrchion plastig untro gwaharddedig);

(d) adran 6 (trosedd: dull treial a chosb);

(e) adran 7 (camau gorfodi gan awdurdod lleol);

(f) adran 8 (pŵer i wneud pryniannau prawf);

(g) adran 9 (pŵer mynediad);

(h) adran 10 (pŵer mynediad: mangreoedd preswyl);

(i) adran 11 (pŵer mynediad: amgylchiadau eraill pan fo gwarant yn angenrheidiol);

(j) adran 12 (pwerau mynediad: atodol);

(k) adran 13 (pŵer arolygu);

(l) adran 14 (y drosedd o rwystro etc. swyddogion);

(m) adran 15 (eiddo a gedwir: apelau);

(n) adran 16 (eiddo a gyfeddir: digolledu);

(o) adran 18 (troseddau a gyflawnir gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig eraill);

(p) adran 19 (atebolrwydd troseddol uwch-swyddogion etc.);

(q) adran 20 (dehongli);

(r) paragraff 1 o'r Atodlen (cynhyrchion plastig untro gwaharddedig), ac eithrio'r cofnodion yng ngholofn 1 a cholofn 2 o'r Tabl ar gyfer "caeadau ar gyfer cwpanau neu gynhwysyddion cludfwyd", "bagiau siopa" ac "unrhyw gynnyrch a wnaed o gynnyrch plastig ocso-ddiraddiadwy— (a) pa un a yw'r cynnyrch hwnnw yn ymddangos yn rhywle arall yn y tabl hwn ai peidio, a (b) pa un a fyddai'r math penodol o gynnyrch, neu'r diben y cyflenwir y cynnyrch hwnnw (neu fath penodol o gynnyrch) ar ei gyfer, fel arall wedi ei esemptio oherwydd cofnod yng ngholofn 2 ai peidio.";

(s) paragraff 2 o'r Atodlen.